# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)10-07**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 16 Hydref 2007

**Amser:** 8.30 a.m.

**Lleoliad:** Yr Ystafell Gyfarfod,  Llawr 4, Yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, Y Llywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Ty

Jocelyn Davies, Dirprwy Weinidog - Tai

William Graham, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig

Kirsty Williams, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn Bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes

Marc Wyn Jones, Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes

Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Marion Stapleton.  Croesawodd y Cadeirydd Mandy Lewis a fyddai'n cynrychioli Marion Stapleton.

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)09-07 (Cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 9 Hydref 2007**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion gerbron y Pwyllgor ar ffurf drafft.  Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddai'r cofnodion yn cael eu cyfieithu'n barod i'w cyhoeddi.

**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr Wythnos hon - BC(3)10-07(p1)**

3.1 Nododd y Pwyllgor y busnes ar gyfer 16 a 17 Hydref  2007.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor y byddai cynnig i atal Rheolau Sefydlog yn cael ei gyflwyno, i gyflwyno cynigion i sefydlu ac i ethol y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, ddydd Mawrth.

3.3 Dywedodd Arweinydd y Ty y byddai'r Datganiad gan y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau ar ddarpariaethau Cymru yn Neddf Addysg Bellach a Hyfforddiant, a drefnwyd ar gyfer dydd Mawrth, yn cael ei ohirio.

3.4 Cytunodd y Pwyllgor y byddai cynnig i atal Rheolau Sefydlog yn cael ei gyflwyno, i gyflwyno'r Ddadl ar Gynllun Gofodol Cymru, ddydd Mawrth, a gafodd ei gohirio yn y Cyfarfod Llawn ar 9 Hydref.

3.5 Dywedodd Arweinydd y Ty y byddai'r datganiadau llafar canlynol yn cael eu gwneud yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher:

Datganiad gan y Gweinidog dros Dreftadaeth ar Ganolfan Mileniwm Cymru; a

Datganiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai ar Gomisiwn Newid yn yr Hinsawdd.

3.6 Cytunodd y Pwyllgor na fyddai Cyfnod Pleidleisio'n digwydd ddim cynharach na 5 pm ar ddydd Mercher ar gyfer busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**Amserlen 3 Wythnos Busnes y Llywodraeth - BC(3)10-07(p2)**

3.7 Nododd y Pwyllgor Amserlen 3 Wythnos Busnes y Llywodraeth.

**Amserlen 3 Wythnos Busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth - BC(3)10-07(p3)**

3.8 Penderfynodd y Pwyllgor ar Fusnes y Cynulliad.

3.9 Penderfynodd y Pwyllgor Fusnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**